YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

CYFROL XLVII. TACHWEDD, 1947. RHIF 11.

Gair o'r Gogledd.

YN rhifyn Hydref o'r YMOFYNNYDD (gweler tudalen 169) ysgrifennodd "Sylwedydd" y geiriau hyn. "Oes, yn sicr, y mae gobaith eto am gynnydd Crefydd Ryddfrydig yng Ngogledd Cymru. Ni bu y rhagolygon erioed yn fwy addawol yn y cyfeiriad hwn nag y maent yn yr oes ryfedd ac anesmwyth hon. Er hyn i gyd y mae galw mawr am genhadon doeth a gweledyddion claer. Diau bod digon o rai cymwys i'r gwaith ymhlith Undodwyr goleuedig cyfoes y Deheudir, yn enwedig ymysg y to ieuanc."

Rhai dyddiau yn ôl derbyniais lythyr oddiwrth un a ddarllenodd eiriau "Sylwedydd," ac y mae'n eu hategu. Gweinidog ieuanc y mae ei enw mewn rhai cylchoedd yn adnabyddus drwy Gymru benbaladr sy'n ysgrifennu. Ni roddaf ei enwad, ond hawdd dyfalu pa un ydyw. Wele gynnwys ei lythyr, ac ni chymhwyswyd dim arno oddieithr gadael allan rhai cyfeiriadau personol.

". . . Gwir a ddywedwch. Y mae maes eang a pharod iawn yng Ngogledd Cymru i syniadau rhyddfrydig, a bum yn synnu lawer tro na fuasai'r eglwys Undodaidd yn cymryd mwy o ddiddordeb ac yn ceisio cenhadu tipyn yma. Y mae cannoedd o'n haelodau sy'n dal syniadau rhyddfrydig yn awr, a mwy na hynny na ddarfu iddynt erioed feddwl beth yw eu daliadau. Y mae ganddynt ryw syniad anelwig fod yr eglwys yn dysgu am bethau fel 'geni o Forwyn,' 'atgyfodiad y corff,' pethau fel Jona ym mol y morfil, a hynny'n llythrennol, ac am wraig Lot. Oherwydd na allant gredu'r pethau hynny troant eu cefn ar Gristnogaeth a'i alw yn ofergoeledd. Yn awr, pe ceid diffiniad cywir a synhwyrol o egwyddorion mawr Cristnogaeth (er enghraifft fel y rhoddir llawer ohonynt yn y llyfr arddderchog, *Common Sense in Religion*, gan James Freeman Clark) fe welai'r miloedd fod a wnelo gwir grefydd â phethau anhraethol uwch a phwysicach nag ofergoeliaeth. Y mae gan yr Eglwys Undodaidd lenyddiaeth wych—neu dyna fy marn i, llyfrau plant, etc. Paham na cheir eu cyfieithu i'r Gymraeg? Llyfrau Lister, er enghraifft.

Pe gwneid hynny, fe ddeuai pobl i werthfawrogi crefydd ryddfrydol. Fel y mae yn awr nid oes ond ychydig iawn a wyr beth yw Undodiaeth. Ac fel y gwyddoch y mae'r gair yn gyfystyr â phaganiaeth, a rhywbeth gwaeth na hynny, i fwyafrif trigolion Gogledd Cymru.

Dyma fy awgrymiadau i—

1. Cyfieithu llenyddiaeth orau crefydd ryddfrydol i'r Gymraeg.

2. Gwneud llawlyfr syml (adgofir fi am rai o bamffledu'r Parchedig D. Delta Evans) yn egluro'n glir beth yn hollol yw Undodiaeth. (Hynny yw, nid Undodiaeth yn unig ond syniadau rhyddfrydol).

3. Cyfieithu llyfrau plant.

4. Cael papur wythnosol neu fisol i hyrwyddo syniadau c'r fath. (Nid yw'r YMOFYNNYDD yn ateb y pwrpas hwn. Nid oes ynddo apel i'r lliaws. Rhaid apelio at y lliaws heddiw).

5. Trefnu sgyrsiau ar y B.B.C. Nid oes raid i'r enw Undodiaeth ddod i mewn. Ond dyweder sgwrs rhwng dau neu dri—un yn uniongredwr rhonc, y llall yn methu â chredu'r syniadau hynny, ac o ganlyniad yn tueddu i golli ffydd ym mhopeth ac yn datgan ei hiraeth am rywbeth i afael ynddo. Un arall yn dweud, 'Ond y mae yna rywbeth y gellir dal gafael ynddo.' Nid yw'r ffaith fod y pethau uniongred hyn (yr enedigaeth wyryfol, etc.) yn *myth* yn dweud nad oes gwerthoedd parhaol mewn gwir grefydd. Yna'n mynd ymlaen i egluro ei ddaliadau. Pe ceid sgyrsiau felly yn arbennig ar gyfer yr ieuanc buasai'n lles mawr. Yna ar ôl i'r had gael ei hau mentro cael cyfarfodydd cyhoeddus a phregethu. Pe gwneid 'united front' o'r fath credaf y buasai Gogledd Cymru wedi ei achub (yn yr ystyr orau i'r gair) cyn pen pum mlynedd.

Wel, dyna ddigon o bregethu eto ynte? Beth yw eich barn chwi? Paham nad ysgrifennwch air i'r *Inquirer*, neu i rywle o'r fath, yn pwyso am i rywbeth gael ei wneud? . . ."

GOLYGYDD.

Y Tad Taylor.

Gan y Parchedig D. EVANS, Cwmiago.

"Y TAD Taylor!" ebe rhywun; "pwy yn y byd ydyw (neu oedd) hwn?" Yn debygol, ni ddarfu i neb o'n darllenwyr erioed glywed sôn amdano; oblegid nid Cymro mohono, nac unmath arall ar Brydeiniwr; eithr Americanwr, a hoedlodd ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ar bymtheg. Un o gymeriadau eithriadol wreiddiol ei ddydd ydoedd, na bu yn aml mo'i debyg na chynt na chwedi hynny.

Pwy, ynteu, oedd y Tad Taylor? Dyry Dr. Robert Collyer brif ffeithiau ei yrfa yn fyr fel hyn: "magwyd ef gan fenyw dlawd

(nid ei fam)—morwr—gwas fferm—crydd—pedler—pregethwr—caplan i forwyr yn ninas Boston." Ganed ef dydd Nadolig, 1793, yn Richmond, talaith Virginia. Pan oedd ond saith oed, aeth i'r môr ; morwr y bu hyd oedd ddwyflwydd ar bymtheg oed. Ac yntau ar ymweliad â Boston yn yr oedran a ennwyd, digwyddodd droi i mewn i un o addoldai'r ddinas, bryd y cyffyrddwyd â'i galon gan a glywodd. Ar ei ymadawiad o'r capel, daeth un o'r brodyr ato gan afaelyd yn wresog yn ei law, a'i wahodd i ddod drachefn—yn debygol, yn ôl a ddywed Dr. Collyer, y gair cyntaf o gydymdeimlad a glywodd o enau neb dieithr er ei eni. Un o ddyddiau mawr ei yrfa oedd hwn. Diangen ydyw imi ei ddilyn, gam ar ôl cam, hyd y'i cydnabyddwyd fel caplan i forwyr a ymwelai â Boston. Codwyd capel iddo yng nghyffiniau'r porthladd, yn un o heolydd cul, hynafol y ddinas.

Ar ei ymweliad cyntaf â'r Amerig, bu Charles Dickens yn ei wrando. Ei destun oedd adnod o Ganiad Solomon—"Pwy yw hon sydd yn dod i fyny o'r anialwch, yn pwyso ar ei hanwylyd ?" Dyry'r nofelydd enwog ddarluniad rhyfeddol o fyw o'r bregeth a seiliwyd ar yr adnod ; ac ar derfyn y darluniad, dywed—"posibl ydyw i'r argraff ddymunol a wnaed arnaf gan a welais ac a glywais gael ei dyfnhau gan ddeubeth—yn gyntaf, nad yw crefydd a thymer siriol yn anghyson â'i gilydd ; yn ail, na ddylid tybied mai i ffafriaid y Goruchaf yr egyr y drws i Baradwys." Ychwenega'r nofelydd na ddarfu iddo erioed glywed o bulpud syniadau cyffelyb.

Er yn Fethodist o gred, eto, bu drwy'i oes ar delerau eithriadol frawdol ag Undodiaid Boston. Iddynt hwy, yn fwy nag i neb arall, y bu'n ddyledus am ddileu'r dyledion ynglyn ag adeiladu ei gapel. "Y Tad Taylor," ebr un o'i gydweinidogion wrtho, un tro, "pam y cymdeithaswch gymaint â'r Undodiaid ? Os eisiau arian sydd arnoch, cewch a fynnoch gennym ni." "Frawd," ebr yntau, "ni thorraf fy nghysylltiad â'r Undodiaid i'ch plesio chwi na neb arall. Ni allaf fynd ymlaen â'm gwaith heb eu cymorth hwy, eithr fe allaf heb eich cymorth chwi." Dywedodd rhywun wrtho, un tro, mai i uffern yr ai Emerson. Atebodd yntau—"os i uffern yr â Emerson, fe newidia'r hinsawdd yn fuan." Dywedodd wrth Dr. Channing—"pan fyddwch chwi farw, bydd yr angylion yn ymryson am yr anrhydedd o gael eich cludo ar eu hysgwyddau i'r nefoedd." Eithr er y gwerthfawrogai'r cymorth a'r cydymdeimlad a estynnid iddo gan Undodiaid, amlwg yw nad apeliai Undodiaeth ato, oblegid dywed—"Emerson yw'r enaid melysaf a greodd Duw ; eithr ni wyddai fwy am ddiwinyddiaeth nag a wyddai asyn Balam am Ramadeg Hebraeg." Cyffelybai gredoau i siaced fraith Ioseff, a wneid i fyny o glytiau o bobmath ar liwiau, annhebyg i'w gilydd. "Chaiff neb ffurfio credo i mi," meddai, "ac ni ffurfiaf finnau gredo i neb arall." Wrth gyd-weinidog a gredai yn namnedigaeth babanod difedydd, dywedodd—"Eich Duw chwi yw fy niawl i."

Cofus gennyf imi ddarllen i John Wesley roddi mynegiad i syniad cyffelyb. Aeth Jenny Lind, y gerddores enwog, i wrando ar Taylor un bore Sul. Yn ei bregeth, talodd iddi wrogaeth wresog am ei hysbryd llednais a'i haelioni. Ar derfyn y bregeth, cododd dieithryn a eisteddai ar risiau'r pulpud, a gofynnodd—a ai person a fai farw yn un o gyngherddau'r gerddores i'r nefoedd. "Syr," ebr yntau, "â'r dyn da i'r nefoedd, lle bynnag y digwydd iddo farw; erys ffwl yn ffwl, er eistedd ohono ar risiau fy mhulpud i." Tryfaithir bywgraffiad byr a diddorol Dr. Collyer gan ffraeth ddywediadau cyffelyb; eithr o ddiffyg gofod, ni sonir am ragor.

I'w gapel, tyrrai morwyr yn dyrfaoedd. Ac amhosibl yw mesur na phwyso gwerth a dylanwad a ddygpwyd ganddo i bwyso ar a wrandawai arno. Codi'r dyn neu'r fenyw a fai wedi syrthio dan draed y byd a'i ddylanwadau anffafriol i fywyd da oedd prif nod ei fywyd. O ddarllen ohonof a ddywedir am dano yn y cyswllt hwn, daw i'm cof lyfr a ddarllenais rai blynyddoedd yn ôl a elwid, "Priddlestri Toredig." Darlunio a wneid gan Fyddin yr Iechydwriaeth i godi dynion a benywaid o gwter aflan pechodau, a'u gosod ar y ffordd i fywyd moesol glanach, oedd ei gynnwys. Wedi imi droi ei ddalen olaf, dywedais—"Dyna Gristionogaeth mewn ymarferiad." Wedi imi ddarllen y cwbl o lyfryn Dr. Collyer, dywedais—"Dyna Gristion a yfodd o ysbryd ei Feistr i fesur eithriadol fawr." Yn sicr, ni wn i am neb a deilynga godi het iddo fel arwydd o barch diffuant yn fwy na'r dyn hwn.

Credaf.

Gan Y Parchedig JOHN C. BALLANTYNE, M.A.

(*Parhad o dudalen* 165)

ARWEINIAD DWYFOL.

Ond dywed hanes ac arferion ein dyddiau ni wrthym stori ddieithr,—nid bod y dyn primitif a Groegiaid y bumed ganrif wedi gobeithio drwy gyd-gynnull gael gwybodaeth newydd am yr Ewyllys Uwch, ond bod dynion cyffredin, yn y gwaith o lywodraethu ac o fasnachu bob dydd, yn gwneud yr un peth. Credant y cânt drwy yngynghori â'i gilydd *arweiniad na cheir mohono mewn un ffordd arall.* Nid ddoe y penderfynasom ni yn y wlad hon i ymddiried materion ein gwlad i gymdeithas sy'n cwrdd i ymgynghori ac yn cael cyfarwyddyd drwy hynny. Y mae'n amlwg mai mynegiant o fywyd y Meddwl Cyffredinol yw cyfathrach ein meddyliau meidrol

ni. Pan godir yr addoliad cynulleidfaol i'w urddas a'i ddwyster gwirioneddol a phan geisir goleuni ar y ffordd ymlaen, nid yw'n syndod fod rhyw ddatguddiad newydd o'r Ewyllys Ddwyfol yn dod drwy wrandawiad dilyfethair y gyfeillach.

Ond cred yr Undodiaid fod yn rhaid i'r Eglwys fod yn flaenfynedol a chreadigol, fod yn rhaid iddi ymddatod ei hun oddiwrth y pethau a eilw Dr. Major yn "religious superfluities, her dogmatic subtleties, her liturgical insincerities, her petty pieties, her wrong valuations and her needless separatisms, which are undermining the influence of the Christian religion upon the English people".

Oherwydd fy mod yn Undodwr, credaf y dylai pob eglwys fod yn rhydd i addoli Duw mewn gwirionedd, heb arni enw sect na phlaid. Gwenwynir yr Eglwys Gristnogol heddiw gan sectyddiaeth ; gwawria'r gwirionedd yn araf ar feddyliau'r arweinwyr. Y mae sectyddiaeth yn gwahanu dynion ac yn eu tynnu ymaith oddiwrth y gymdeithas â'r Un Tad Cyffredinol. Ond tynnir fi yn agosach at Dduw drwy Eglwys y Cymdeithion Mawr, drwy Iesu ei hun a wrthwynebodd arweinwyr pleidiau'r sectydda yn Eglwys ei gyfnod, ac a alwodd ar bawb i addoli "Ein Tad" ; drwy Ddynion Tawel[1] llawer cyfnod a drodd eu cefn yn barchedig ar y frwydr ddiwinyddol ; drwy Gyfrinwyr pob gwlad. Cydsyniaf â'r Cyfriniwr Cristnogol, William Waw, pan ddywed, "God is one, human nature is one, salvation is one, and the way to it is one ; and that is the desire of the soul turned to God". A dyfnheir fy nghrefydd i gan gymdeithas cwmni mawr o ddynion cyffredin a ddaliodd ffydd yn y Duw byw, beth bynnag eu henwau, a chael ohonynt ysbryd-iaeth ar gyfer y bywyd beunyddiol yng nghyfeillach addoliad.

Defnyddio'r Beibl.

Adgyfnerthir fy nghrefydd gan *y Beibl*,—nid pob gair ohono, wrth gwrs, canys llyfrgell o chwe deg a chwech o lyfrau ydyw'r Beibl, llyfrau hanes, proffwydoliaeth, cyfraith, barddoniaeth, chwedlau, llythyrau, a drama. Cynnwys lawer o bethau sy'n eu croesddweud eu hunain, llawer a gondemniaf fel pethau gwael. Ond gosoder y llyfrau yn eu trefn amseryddol, a gwelwn ninnau'r ffaith o dyfiant y Beibl. Darllenwn am ddatblygiad cenedl, am ddadlennu meddyliau dynion am fywyd, am Dduw, am berthynas dyn â Duw ac â'i gyd-ddyn. Ceir yma syniadau amrwd am y bywyd moesol ; yma codwn i'r ddysgeidiaeth foesol uchaf. O ddaliadau am Dduw fel bôd cenfigennus a dig ac anghyfiawn, codwn i'r wybodaeth am y Duw sy'n trigo ynom, y Duw a oedd ym meddwl a chalon Iesu. Rhoddir i ni gipolwg ar hiraeth calonnau effro i'r ymwybod o Dduw.

---

[1]The Quietists.

Sylweddolwn reidrwydd mawrfrydig y pwrpas dwyfol yn distyrbio, yn erlid, yn condemnio pob hunan-foddhad, y dyhewyd aflonyddus am yr harmoni â'r Gallu Uwch ; yna codiad haul y Cariad Tragwyddol, yn cyrraedd ei anterth yn yr un bywyd gogoneddus hwnnw yr ymddengys i mi iddo gyffwrdd ag uchter yr harmoni y soniaf amdano. Ond "nid mud mo Duw fel na lefaro mwyach", ac nid mewn un iaith yn unig y llefarodd efe,

> "Slowly the Bible of the race is writ,
> Each age, each kindred, adds a verse to it".

Fe'm tynnir yn agosach at yr Un Duw trwy'r gorau sydd yn y Beiblau i gyd, llyfr pererindod dyn, darganfyddiad ysbryd dyn, cyfathrach dyn â Duw, llyfr sy'n tyfu, sy'n ehangu.

Ac fe'm tynnir yn agos iawn at y Tad *gan Iesu*, i mi Meistr Bywyd, "Great Friend", fel y dywed Theodore Parker, "to all the sons of men" ; y Ffordd, oherwydd y tywys ni yn ei ffordd ef at galon y Tad ; y Gwirionedd, oherwydd y datguddia wirioneddau aruchelaf y berthynas ddynol ; y Bywyd, oherwydd, pan fyddom byw fel y myn ef inni fyw, y mae Bywyd Uwch yn gweithio ynom. Ei orchmynion i garu Duw a dyn, ei ddysgeidiaeth am y Cariad Dwyfol sy'n ein hamgylchynu ac yn gwrthod ein gadael, ei grefydd yr ysbryd, penderfyniad, ffrwythlondeb, cadwedigaeth, yw'r uchaf a'r mwyaf mawreddog a wybu'r byd. Nid ei fod ef yn ail berson yn y Duwdod sy'n cynnwys tri pherson gogyfuwch â'i gilydd—daw'r athrawiaeth anysgrythurol hon megis atalfa amhosibl, rhywbeth sy'n gwahanu, rhyngof â Duw. Ond pan ddywed Pawl wrthym, "I ni nid oes ond un Duw, y Tad, o'r hwn y mae pob peth . . . ac un *Kurios* (Meist) . . . " (1 Corinthiaid viii. 6) yna adferir y cytgord. Gwn y gorfodir ar bob gweinidog yn yr eglwys sefydledig gan y gyfraith ddatgan yn gyhoeddus, bedair gwaith ar ddeg bob blwyddyn, am bersonau fel myfi, oherwydd na goleddwn athrawiaeth ddieithr a throellog y Drindod, y collir ni yn dragwyddol ; ond gair pell ydyw hwn oddiwrth ddysgeidiaeth y cenhadwr mawr cyntaf, "canys y sawl a arweinir gan Ysbryd Duw, y rhai hyn sydd blant i Dduw . . . ac os plant, etifeddion hefyd, sef etifeddion i Dduw *a chyd-etifeddion â Christ*, (Rhufeiniaid viii. 14, 17) ; mewn gwirionedd dywed wrthym am ymdrechu "hyd oni gyfarfyddom oll yn undeb ffydd a gwybodaeth Mab Duw, yn wr perffaith, at fesur oedran cyflawnder Crist". (Effesiaid iv. 13).

Daw gwres a lliw a chyfoeth difesur i'm crefydd o sylweddoli ei fod ef wedi achub ac yn achub dynion drwy ei fywyd, ei harddwch, modd ei farw, a buddugoliaeth ei gariad ar allu bedd—yn achub y dynion sy'n barod i'w ddilyn ef, ac yn mynd gydag ef i geisio llwybr union a didramgwydd at galon y Tad—ei Dad ef a'n Tad ninnau.

Adgyfnerthir fi hefyd yn fy mherthynas gydgordiol â Duw gan "*gymundeb y saint.*" Yn ddyddiol defnyddiaf galendr o saint ;

trwy feddwl amdanynt fe'm tynnir yn agosach at yr Hwn y cawsant hwythau eu nerth ynddo. Yn eu plith y mae Undodiaid enwog—pregethwyr fel Channing a Parker ; meddylwyr fel Martineau ac Emerson ; ysgrifennwyr fel Stopford Brooke ; athronwyr fel John Locke ; pleidwyr rhyddid fel John Milton ; nofelwyr fel Charles Dickens ; addysgiaethwyr fel Mary Somerville, merthyron fel Servetus—a llu eraill. Ond ar fy nghalendr y mae coffadwriaeth am wŷr a gwragedd o bob ffydd, o bob cred, Dwyreinwyr a Gorllewinwyr, cyfrinwyr a chenhadon ; ac fel y myfyriaf ar yr egwyddorion ysbrydol a ddangosasant, gwelaf "bob un yn ôl ei fesur yn ddim ond rhan o'r Galon Dadol ddifesur."

Pwysa fy nghrefydd ar "Bileri Cymdeithas," fel y galwodd Ibsen hwy, ysbrydion *gwirionedd a rhyddid.* Saif y ddau gyda'i gilydd. Os ydym i fod yn ffyddlon i ni ein hunain ac i Dduw, rhaid wrth ryddid ysbrydol. Ni lyfetheirir yr hanesydd gan un plaid, un awdurdod cyfyngedig. Rhaid i'r gwyddonydd yn ei ymchwil fod yn rhydd, heb orfodaeth un chwil-lys ysbrydol.

Y Bywyd Anfarwol.

Un meddwl arall sy'n dod â mi "i gerdded yn agosach gyda Duw,"—ac yna rhaid tynnu pen ar y datganiad byr hwn. Y meddwl am y bywyd anfarwol ydyw. Y mae hwn yn fy mherswadio i ffyddlondeb manylach i'r Pwrpas Tragwyddol. Y mae'r meddwl fod gan bob enaid dynol a ddaeth i'r byd hwn ryw ran yn y Cynllun Mawr, fod bywyd yn ymestyn o flaen pob un ohonom, o ysgol i ysgol, o gylch i gylch, fod personoliaeth pob un ohonom, wedi ei phuro, ei glanhau, ei dyfnhau, ei huno â phersonoliaethau eraill, yn byw ymlaen yng Nghalon Fawr Duw am byth—y mae'r cyfan hyn yn fy nhynnu yn agos at fy nghyd-bererinion ar y ffordd ac at yr Enaid Mawr. "Trwy gapel f'enaid clywaf gynghanedd emyn bôd yn ymchwyddo," ac fe'm cysegrir o'r newydd wrth yr allor.

A Chân Anrhydedd yn ei galon, y mae crefydd dyn yn allu sy'n bywiocau : y mae'n barod ac yn awyddus am fywyd y dydd, a phopeth a ddyry'r dydd, yr ymgodymu neu'r tangnef, y gorchfygu neu'r llwyddo.

* * *

Yr wyf yn Undodwr ; ac yn fynych wrth geisio meddwl i lawr i graidd pethau, fe'm caf fy hun yn gofyn eto, "Pa un yw'r gorchymyn cyntaf o'r cwbl ?" a chlywaf ateb yr Athro, "Y cyntaf o'r holl orchmynion yw, Clyw Israel, yr Arglwydd ein Duw, un Arglwydd yw ; a châr yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon, ac a'th holl enaid, ac a'th holl feddwl, ac a'th holl nerth. A'r ail sydd gyffelyb iddo, câr dy gymydog fel ti dy hun. *Nid oes orchymyn arall mwy na'r rhai hyn.*"

Rhifyn y Dathlu.

(*Parhad*).

Oddiwrth Mr. D. T. Williams, Aberdâr, llywydd Cymdeithas Morgannwg.

GAIR bach ar ran y South-East Wales Unitarian Society i ddymuno'n dda i'r hen YMOFYNNYDD annwyl, ac yntau wedi bod ar y ford yn fy hen gartref cyn bod son amdanaf, ffafryn fy nhadcu ac eilun fy mam, yn dal yn ei ddiddordeb i deulu bach Brondeifi, Aberdâr, o hyd, a gobeithio am genhedlaeth arall eto. Fy nghof cyntaf amdano ydyw gweld llond sach ohono yn mynd o'r Efail Fach i Lyfrgell Aberystwyth, ac wedi hynny "row" byth a beunydd am ei fod yn llanw pob cornel o'r ty. Ambosibl ei losgi. Y mae'r rhifynnau'n gryno yma'n awr, yn cadw eu blas fel erioed. Erys ei werth, ac o feddwl fod amgylchiadau'r amser wedi gorfodi pris uwch arno, cofiaf am bennill Sarnicol i'r bargeiniwr,

"Mewn gair ac mewn gweithred
Mae'n hynod o chwim ;
Mae'n gwybod pris popeth
Heb wybod gwerth dim."

Hoffaf YR YMOFYNNYDD am fod y dyn cyffredin yn ei ddeall. Nid addysg academiaidd sy'n profi fod dyn yn wrteithiedig. Tynnu allan y mae addysg, nid gwthio i fewn. Ysgrifennaf fel Cymro ac fel un sy'n teimlo fod rhy fach o dalu wedi bod a'r ddyled mor fawr. Y mae'r cefndir yn fendigedig. Gyfeillion Undodaidd, boed i ni sy'n canfod ardderchogrwydd ein hiaith, yn teimlo ei melyster, ac yn hóffi ei phereiddlais, ei chynnal a'i chadw. Iaith YR YMOFYNNYDD ydyw. Gwelodd Cymru lawer o elynion oddi allan ac oddi fewn. Cefnodd llawer o'i pblant arni. Dyna deulu Dic Shon Dafydd—

"Fe fedrodd Dic, ŵr ffiaidd ffôl,
Adael llond gwlad o'i had ar ôl."

Carai Daniel Ddu ei wlad a'i iaith â chariad angherddol. Dyfynnaf o'i araith yn Eisteddfod Aberhonddu (1882),

"Mae gwladgarwch fel duwies, deg wawr, yn sefyll y funud hon o flaen fy llygaid, ac yn gwenu wrth weled ein hymdrechiadau clodfawr o blaid yr hen Gymraeg. Dyma ysbryd Taliesin wedi codi o drigfannau'r meirwon yn galw arnaf i ail-adrodd y geiriau,

'Eu hiaith a gadwant, eu Ner a folant.'

Gwelaf ef a dwrn caeedig ac a braich estynedig yn barod i drosgwlyddo i lwch angof bob gelyn i'r iaith honno, am ba un y dywedodd ef y parhai hi byth. Mae yr awen wedi priodi ag anfarwoldeb. Blant yr Awen, feibion anfarwoldeb, llwyddiant i chwi yn eich hymdrechiadau."

Rhaid i'r weledigaeth gydredeg â gwroldeb personol. "A fedd gof a fydd gaeth." Nid dyddiau i fod yn hunan-fodlon ynddynt ydyw'r rhain, nac ychwaith i redeg ar ôl unrhyw hudlewyrn (wil o' the wisp). Credaf fod cyngor Ruskin mor amserol heddiw ag ydoedd yn ei ddydd,

"You will find, if you will think deeply of it, that the chief of all curses of this unhappy age is the universal gabble of its fools, and of the flocks that follow them, rendering the quiet voices of the wise men of all past time inaudible."

Mawr ydyw'r traddodiad o'i gadw yn fyw ; peth ofer yw ei addoli mewn bedd.

Ar bob cyfrif cadwer YR YMOFYNNYDD yn fyw. Dyma'r cyfrwng pennaf sydd gennym i gadw diddordeb ym mhethau mawr yr Undodiaid. Boed i'n cariad at yr achos, nid yn unig gyrraedd y galon ond y boced hefyd. Cariad heb lafur : cariad heb aberth—nid y rhain a gadwodd YR YMOFYNNYDD yn fyw am gan mlynedd. Daliwn ein gafael ynddo.

"When I have plucked the rose, I cannot give it vital growth again."

Enfyn yr Hen Dy Cwrdd, Aberdâr[1] hefyd ei ddymuniadau gorau. Rhoddodd yr Hen Dy Cwrdd fwy nag unwaith hwb i'r YMOFYNNYDD yn ystod ei daith drwy'r ganrif gyntaf.

Neges Cymdeithas Morgannwg i'r YMOFYNNYDD yw. "Even if you are on the right track, you will be run over if you sit there."

"Time is not on our side unless we grasp it.
Tradition is not on our side unless we live and create it.
God is not on our side unless we listen and obey."

Ple mae'r talentau newydd, yr arweinwyr a'r weledigaeth newydd? A ydyw Tyn'rhewl, Caeronnen, Llwynrhydowen, a Chwmglo i fod yn ddim ond chwedl yn unig? Methodd tân pregethu Llangeitho losgi tystiolaeth Llwynrhydowen. A adawn i ddifaterwch wneud hynny?

"Dysg ni ofni byw yn esmwyth
Gan anghofio'r byd a'i loes."

---

[1]Da fyddai cael pregeth y Parchedig E. R. Dennis ar ganmlwydd YR YMOFYNNYDD. Ein dymuniadau gorau iddo yn ei frwydr ag afiechyd blin. —*Golygydd.*

Oddiwrth Mr. Sam Davies, Birmingham.

TRWY fisoedd yr haf bum yn edrych ymlaen yn eiddgar at dderbyn rhifyn Medi—rhifyn canmlwydd YR YMOFYNNYDD. Y mae hen ddywediad mai gwell ydyw'r disgwyl na'r sylweddoli. Beth bynnag, gallaf eich sicrhau nad felly yr oedd pethau y tro hwn, a llawen gennyf ddweud y cyflawnwyd mwy na'm disgwyliadau.

O ddarllen y rhifyn tywyswyd fy meddwl yn ôl dros y blynyddoedd gan enwau fel T. Arthur Thomas a William James. Cyffyrddwyd â thant tyner yn fy nghalon gan fy hen gyfaill ysgol, y Parchedig S. E. Bowen. Fel Mr. Bowen codwyd finnau yn ardal a than dylanwad hen gapel Panteg, ac y mae gennyf doreth o atgofion melys.

Cyrraedd fy nghof cyntaf am YR YMOFYNNYDD yn ôl i'r wythdegau o'r ganrif ddiwethaf, a chofiaf am fy nhadcu, Mr. Samuel Hughes, Llwynbedw, yn ei ddarllen yn gyson. Cofiaf yn dda amdano'n gwisgo ei spectol a'i rhimyn dur, ac yn awr ac eilwaith edrychai drosti i weld a oedd ei ŵyr, Sam bach, yn chwarae â'r tân. Dro arall, ac yntau dros ei ben a'i glustiau yn YR YMOFYNNYDD, cofiodd yn sydyn am Sam bach, a thrwy ffenestr y gegin fach gwelodd ef yn chwarae mewn pwll o ddwr ar y clôs.

Fel y dywedais, ai'r enwau y cyfeiriwyd atynt a'm meddwl yn ôl dros y blynyddoedd, ond ofer y bum yn edrych am rai enwau. Wrth gwrs, ni ddisgwylid gweld enwau pobun o gewri'r pulpud—enw fel Jenkin Williams, Panteg, na fyddai byth yn blino son am yr Apostol Paul, ac enw fel John Davies, Galltyplaca, a fyddai bob amser yn dal ei wrandawyr yn ei law gan rym ei bregethu a'i bersonoliaeth.

Parhaed YR YMOFYNNYDD yn ei ail ganrif i gyhoeddi Rhyddid, Gwirionedd, Cariad—yn arbennig, Cariad—i fyd lle y mae'n rhaid mynd yn ôl i'r oesoedd pell cyn cael cymaint o greulonder a phrinder cariad.

Yn ddiwethaf, dymunaf ddweud, er fod pris YR YMOFYNNYDD wedi codi i chwecheiniog, y mae eto'n rhad. Yn wir, ni ellir mesur gwerth yr hen gylchgrawn annwyl mewn punnoedd a sylltau a cheiniogau.

Oddiwrth Mrs. A. Jones Rees, Llanbedr.

ANNODD gwybod pa beth i'w ysgrifennu i'r YMOFYNNYDD yn awr ar ôl y fath longyfarchion a dderbyniodd ar ben ei ganmlwydd. Llawn deilyngai'r hen wr y llongyfarchion i gyd am ei ddewrder i ddal ei dir trwy alanas rhyfel ar ôl rhyfel pan fethai llawer cylchgrawn ddal y straen. Pe derbyniai ambell fod dynol gymaint o longyfarchion a'r YMOFYNNYDD, buasai ei ben wedi chwyddo'n anobeithiol. Mentraf gynnig gair bach iddo er profi ei gydbwysedd.

Darllenasom am aberth ei olygydd cyntaf yn ei ddwyn allan ar ei draul ei hun, ac na chai gefnogaeth ei gyd-weinidogion gan eu bod yn gwrthwynebu'r syniad. O feddwl am y fath aberth a brwdfrydedd, blin clywed pobl heddiw'n grwgnach am fod ei bris wedi codi i chwecheiniog y mis. Ni olyga hynny ond ceiniog a dimai yr wythnos. Nid yw hynny'n llawer am yr unig gylchgrawn Cymraeg sydd gennym fel enwad. Gwerir llawer ceiniog a dimai mewn wythnos heb feddwl amdanynt yr ail waith.

Efallai nad yw'r ysgrifau a'r erthyglau'n gymeradwy gan bawb bob tro, ond ceir ynddo hanes gweithrediadau'r eglwysi a'r enwad. Ceir hefyd y marwolaethau a'r priodasau, ac y maent o ddiddordeb cyffredinol. Byddant ar glawr a chadw am genedlaethau ond inni ofalu am y misolyn bach.

Try llawer olwyn yn yr oruchwyliaeth o gael y cylchgrawn i gylchrediad. Y ddwy olwyn bennaf ydyw'r golygydd a'r tanysgrifiwr. Yna daw'r gohebydd, y wasg, a'r dosbarthwr. Bendith Duw arnynt, a hwyl fawr i barhau'n ffyddlon yn y dyfodol fel yn y gorffennol.

Yn awr, ar ddechrau ei ddau canmlwydd ein dymuniad ydyw ar iddo gynhyddu mewn nerth a dylanwad, fel y byddo ar ben ei ail ganrif yn teilyngu llu o longyfarchion gwresocach fyth nag ar ben ei ganrif gyntaf.

Priodasau.

Medi 23, yn Eglwys St. Pedr, Elerch, Talybont, Ceredigion, EVAN DAVIES, M.Sc., mab y Cynghorwr Simon Davies a Mrs. Davies, Green Grove, Felin Fach, Ceredigion, a MARGARET JONES, merch y diweddar Mr. Thomas Jones a Mrs. Jones, Llysterfyn, Talybont. Gweinyddwyd gan y Parchedigion D. H. Davies, Rheithor Northborough (ewythyr y briodasferch) a Melvyn Thomas, Ficer Eglwys Elerch.

Yng Nghapel y Graig, Llandysul, Hydref 11, 1947, unwyd mewn glân briodas, THOMAS SAMUEL EVANS a ELIZABETH ANN DAVIES, Fedwen, gan y Parch. E. Gwilym Evans. Dymunwn pob bendith dda iddynt.

Marwgofion.

Dydd Iau, Medi 11, wrth Gellionnen daearwyd gweddillion ANN WILLIAMS, Bron Awen, Graig Road, Trebanos, y Parchedigion J. D. Jones, Lewis Morgan, a Llewelyn Evans yn gweinyddu. Yr oedd yn "hen dŷ cwrdd y mynydd" gynulliad mawr o alarwyr, canys yr oedd i Mrs. Williams barch a serch yng nghalon yr ardal hon. Anodd sylweddoli fod ei llais wedi distewi, y llais o'i glywed unwaith ni ellid ei anghofio. Yr oedd rhyw dinc awdurdodol ynddo, ond pan fyddai'r gair yn llym weithiau gwyddem fod o'r

tu ôl iddo guriadau calon dyner iawn. Na, ni chawn eto weld ei thebyg hi. Safai ar ei phen ei hun. I bawb Anti Ann ydoedd, ac Anti yng ngwir ystyr y gair. Yr oedd ei diddordeb hi ym mhawb a phopeth, byddent drafferthion neu bleserau plentyn neu hynafgwr.

Gwyddom am ei diddordeb yn *holl* weithrediadau'r capel. Bydd ei gweddillion bellach yn santeiddio inni ddaear gysegredig y fynwent, a hithau ei hun wedi uno â'r llu hwnnw a gerddai gyda hi yn nyddiau ei hieuenctid i'r deml ar y mynydd.

Cydymdeimlwn yn fawr iawn â Mr. Arthur J. Williams, a'i deulu, ac â'r ferch, Mrs. Morfudd Jones, a hithau wedi gweld cymaint o weini wrth welyau cystudd yn ddiweddar. Rhyfedd fel y daliodd i'r lan. Gwaith cariad ydoedd gweini fel hyn iddi hi, ac oherwydd hynny derbyniodd nerth yn helaeth o Ffynhonnell pob nerth, y Cariad digyfnewid sy'n cynnal y byd.

Yn ei ffordd ei hun profodd Mrs. Williams lawer iawn o bleser o helyntion ei bywyd, a gwelodd fyw heibio i bedwar ugain mlynedd. Yn ddiamau iddi orfod cario beichiau trymion ar brydiau, a gwyddai beth ydoedd profi dyfroedd chwerwon bywyd. Ond yr oedd ganddi dalent i fwynhau'r pleserau, ac nid y pleserau sy'n troi'n llwch a lludw yn y genau oedd ei phleserau hi, ond y pleserau parhaol, pleserau sy'n gadael eu lliw ar fywyd ac yn cyfoethogi ei brofiadau. Canolfan ei phleser oedd y capel—cyfeillach y capel, cyfarfodydd y chwiorydd, cyngherddau'r capel, cyfarfodydd adrodd a chanu'r plant. Ers blynyddoedd bellach hi oedd yn teyrnasu ar gyfeillach y cwrdd gweddi—eraill a fyddai'n cymryd rhan, ond hi oedd yn teyrnasu. Yno, wrth yr aelwyd, yr oedd ganddi ei chadair ei hun—cadair Anti Ann, dyna'i henw. Yr oedd materion cynulleidfa Gellionnen a'r Graig mor agos at ei chalon â materion ei haelwyd ei hun. Am flynyddoedd maith gofalodd yn annwyl am lestri'r Cymun. Mynnodd weld fod ei rhan gyda'r achos yn rhan dda. Yn wir, nid oedd ei chartref hi ond rhyw fath ar *extension* o Gapel y Graig.

Fe gofia llaweroedd o Undodiad Cymru am ei gŵr, y diweddar J. J. Williams, cychwynnydd ac ygrifennydd y West Wales Bands Association. Brith gof bachgen ieuanc sydd gennyf i amdano, ond fel gweinidog Gellionnen a'r Graig am flynyddoedd bellach, caf gyfle bob dydd i weld dylanwad ei wasanaeth ar fywyd ein cynulleidfa. Pa faint o'n bechgyn a'n merched canol oed heddiw a ddysgwyd yn gynnar i "dorri gair" yn gyhoeddus ar ford ei gartref? Digon dweud, pe bai pob cartref fel y cartref hwn byddai llewyrch gwahanol ar fywyd ein cynulleidfaoedd heddiw. Carent yr achos—a phrofedigaeth drom iddynt ydoedd colli Idris, ac yntau â'i fwriad ar fynd i'r weinidogaeth.

Gwelsom hi yn ei chystudd, yn dioddef â gwen ar ei hwyneb, yn edrych ymlaen o hyd at wellhad, at "fynd mas mor bell â'r cwrdd unwaith eto." Gwelsom hi weithiau'n well, weithiau'n waeth, ond drwy'r cyfan daliai ei diddordeb ym mhethau'r cwrdd a phethau'r ardal. Bu farw ar Fedi 8. Na, ni welwn eto mo'i thebyg.

Medi 17, yn 66 oed, bu farw ELIZABETH ALICE MORGAN, annwyl briod Thomas Morgan, Llwyngroes, Llanwnnen, gan adael priod, dau blentyn,

tair chwaer, dau frawd, a pherthynasau agos eraill, mewn hiraeth o'i cholli. Merch ydoedd i'r diweddar Gynghorwr David Evans, Ffynnonfair, a'i briod. Ni bu gryf o iechyd ers cryn amser ; eithr ni pharhaodd ei chystudd olaf ond ychydig wythnosau. Cydymdeimlir â'r priod, yntau o iechyd amharus, ynghŷd â'r gweddill o'r teulu. Ni bu'r cylch yr arferai droi ynddo yn eang ; y cartref oedd y fan a garai ; yno, chwaraeodd ei rhan yn y modd llawnaf ; a gwag yw'r aelwyd o'i cholli. Oedd hoff gan a'i hadwaenai'n orau, ar gyfrif ei rhodiad cywir a'i gwen siriol. Dydd Mawrth dilynol, daearwyd ei gweddillion yng Nghapelygroes, y cynhebrwng yn gyfyngedig i'r perthynasau ac ychydig gymdogion. Darllenwyd a gweddïwyd yn y tŷ gan y Parchn. Dewi Jones, Llanddeusant ac S. Evans Bowen, Alltyplaca, yn y capel gan y Parch. David Evans, ar lan y bedd gan y Parch. Lewis Williams. Chwaraewyd y *Dead March* gan Mrs. Jenkins, Blaenwaunganol.

Medi 23, yn 68 oed, bu farw OWEN EVANS, annwyl briod Judeth Evans, Cnapsych, plwyf Llanwenog, gan adael priod, chwaer, dau frawd, a pherthynasau agos eraill mewn hiraeth dwys o'i golli. Er nad oedd wedi mwynhau iechyd boddhaol ers peth amser, eto rhyfeddol o sydyn a fu ei farw. Aeth allan o'r tŷ hwyr nos Lun, a bu farw cyn dychwelyd. Annisgwyliadwy iawn a fu ei farw ; a phan daenodd y newydd bore trannoeth, braidd y medrai neb gredu ; a pherwyd i a'i hadwaenai, nid syndod yn unig, eithr cryn fesur o fraw, o feddwl mor ansicr yw bywyd dyn. Dyn oedd Owen a berchid yn fawr gan bawb, ar gyfrif nodweddau dymunol ei gymeriad—gweithiwr caled a didwyll, diddrwg o ysbryd, cymwynasgar hyd eithaf ei allu, heddychol o anian o rodiad beunyddiol cywir. Bu ei briod yn orweddog am oddeutu dwsin o flynyddoedd ; a bu'n rhyfeddol o ofalus a thyner ei driniaeth ohoni ; a chydymdeimlir yn fawr â hi yn ei cholled a'i galar. Y dydd Iau dilynol, cludwyd ei gweddillion i fynwent Capelygroes, y cynhebrwng yn anghyhoedd. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. David Evans, yn y Capel gan ei weinidog, y Parch. Morris Jones, Drefach, ar lan y bedd gan y Parch. S. Evans Bowen. Chwaraewyd y *Dead March* gan Mrs. Jenkins, Blaenwaunganol.

Hydref 1, yn 76 oed bu farw Mrs. JANE THOMAS, Crossway, Cwmsychbant, yn nhŷ ei merch yn Solva, sir Benfro. Yr oedd yn un o ffyddloniaid Capel-y-Cwm, lle y mae ei phriod, Mr. James Thomas, wedi bod am flynyddoedd lawer yn arweinydd y gân. Bu yn wasanaethgar iawn drwy gydol ei hoes, ac yn un o'r goreuon yn ei chartref. Mwynhaodd iechyd da hyd tua blwyddyn yn ôl. Ar ôl rhai misoedd o afiechyd a hithau'n teimlo ei bod ar wellhad aeth am dro i dŷ ei merch, ac yno ar fyr rybudd y daeth y diwedd. Bydd y Capel a'r pentref yn llawer tlotach yn herwydd ei mynd. Y dydd Sadwrn dilynol gosodwyd y rhan farwol ohoni ym mynwent Capel-y-Cwm. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan ei gweinidog, y Parch. S. E. Bowen yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. D. T. Davies, Rheithor Llandebie ; W. M Davies, Curad Ystrad Fflur ; Bryn Davies, Brynteg ; S. Morgan, Ficer Llanwenog, E. O. Jenkins a Lewis Williams. Gadawodd mewn hiraeth dwys ar ei hôl briod, merch, ac wyrion. Cydymdeimlir â hwy yn eu galar.

Hydref 10, ANNIE, annwyl briod Ivor Jones, Beechwood, Llandysul, a chyn hynny yr Anchor Cafe yn 37 oed. Nid oedd yn rhy hwylus ei hiechyd ers tro, a'r dydd Mawrth cyn hynny aeth i Ysbyty'r Sir yn Aberystwyth i fynd tan driniaeth llawfeddygol. Aeth drwy'r driniaeth drannoeth yn hollol foddhaol. Gwaethygodd drannoeth a thrannoeth i hynny bu farw—yn agos i ddwy flynedd yn ôl bu farw ei mam yn yr un lle o dan amgylchiadau tebyg. Merch ydoedd i David Evans, a'r diweddar Mary Evans, Felin Rhydowen. Cofiwn hi er yn blentyn sugno. 'Roedd rhywbeth yn bert ynddi er yn faban. Erbyn cyrraedd ohoni ei phump neu chwech oed 'roedd yn brydferthwch i gyd. 'Roedd yn bert o gorff, yspryd, a siarad.

Bu lawer yn fy nghwmni rhwng ei 5 a 15 oed, a'r pertrwydd yna oedd ei nodwedd amylcaf. Hoffwn dynnu ei choes, fel y dywedir, ond cai Annie gyda'i siarad pert a ffraeth y gorau arnaf bob tro. Wedi tyfu, rhaid mynd allan i'r byd at wasanaeth, a hoffid hi ym mhobman. Ai drwy ei gwaith yn ddidrafferth a diffus heb feddwl am rwgnach. Ychydig flynyddoedd yn ôl pwrcasodd hi a'i phriod dŷ digon diaddurn ym mhentref Llandysul. Gweddnewidwyd ef yn llwyr, ac agorwyd lle gwerthu bwyd (Anchor Cafe) a thynnai pobl yno, a chai pob un ei foddloni, ei gwên groesawgar hithau yn creu archwaeth at fwyta. 'Roedd yn rhyfeddol o siriol a charedig. 'Roedd ganddi feddwl i drefnu a chalon fawr i deimlo, a llawen oedd ei chymwynasau. Nid perthynasau'n unig sy'n hiraethu o'i cholli ond ardal gyfan. Estynnir ein cydymdeimlad llwyraf i'r priod a'r mab bychan ; Joyce (evacuee a oedd fel cannwyll ei llygad), y tad sydd ers blynyddoedd yn gaeth i'w gornel, y ddwy chwaer, y ddau frawd, a'r llu perthynasau eraill. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Pantydefaid y dydd Mawrth dilynol.

'Roedd lluosogrwydd yr angladd a nifer y plethdorchau a'r blodau yn tystio fod un annwyl wedi mynd. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchedig R. Morris, Penybont, ac yn y Capel a'r fynwent gan y Parchedigion E. Gwilym Evans, a W. Wyn Jones. Gwelwyd yn bresennol y Parchedigion E. O. Jenkins ; Dan Adams, Llechryd ; J. P. Jarman, Nanternis ; D. A. Williams, Carmel ; T. R. Evans, Llandysul. "Ymddiried yn Nuw."

Dydd Sadwrn, Hydref 18, ym mynwent Carmel, Llandysul, claddwyd gweddillion marwol David Evans, Anneddfa, Llandysul, gynt o Blaencwm. Yn y tŷ darllenwyd a gweddïwyd gan y Parch. R. Morris a'r Parch. D. Rhydderch. Pregethwyd yn y Capel gan y Parch. E. Gwilym Evans, yr hwn a dalodd deyrnged urddasol i gymeriad yr ymadawedig. Cymerodd y Parchedig D. A. Williams a'r Parchedig Esaia Williams hefyd ran yn y gwasanaeth. Ar lan y bedd gan y Parchedig E. O. Jenkins yn gweddio. Cydymdeimlwn yn fawr a'r teulu yn eu colled a'u hiraeth. "Dychwel, O fy Enaid i'th orphwysfa ; canys yr Arglwydd fu dda wrthyt."

Dydd Sul, Hydref 26, yn 84 oed, bu farw MARY EVANS, Heol y Prior, Caerfyrddin, ar ôl cystudd caled. Yng Nghaerfyrddin y treuliodd y rhan fwyaf o'i bywyd—o gwmpas 60 mlynedd. Dechreuodd ei hiechyd ddirywio flynyddoedd yn ôl ; eithr gwaethygodd yn gyflym yn ddiweddar ; a thua thair wythnos cyn ei marw, daeth i Felinban, cartref ei mebyd, er i'w brawd a'i

briod, William ac Anne Evans, weini arni ; a chafodd o'u llaw bob triniaeth a thynerwch a oedd yn eu gallu. Gadawodd mewn hiraeth o'i cholli, un chwaer a thri brawd, ynghyd â chylch eang o berthynasau. Ymaelododd yn Aberduar pan oedd ieuanc ; ac wedi iddo symud i Gaerfyrddin, yn y Tabernacl y gwnaeth ei chartref crefyddol. Yn ei anerchiad ddydd ei hangladd, dug ei gweinidog y Parchedig James Thomas, dystiolaeth uchel iddi fel aelod ffyddlon a chywir ei rhodiad ; a pherchid hi yn fawr gan ei chyd-aelodau. Daearwyd ei gweddillion yng nghladdfa'i theulu ym mynwent Capelygroes y dydd Mercher dilynol, y cynhebrwng yn gyfyngedig i'r perthynasau a'r cymdogion agosaf. Darllenwyd a gweddïwyd yn y tŷ gan y Parchedig D. Evans ; yn y Capel ac ar lan y bedd gan y Parchedig James Thomas. Chwaraewyd y *Dead March* gan Mrs. Jenkins, Blaenwaunganol.

Nodion yr Eglwysi.

CAPEL Y GROES.—Llongyfarchiadau i Mr. Ivor Jones, Blaencwrt, ar ei lwyddiant yn pasio arholiad y *Central Welsh Board.* Mab ydyw i Mr. Stephen Jones, o'r lle uchod, ac ŵyr i Mrs. Jenkins a'r diweddar Jenkin Jenkins, Blaenwaunuchaf.

GELLIONNEN a'r GRAIG, TREBANOS.—Treuliwyd diwrnod hwylus yng Nghaerdydd ar Hydref 9 gan aelodau o Gymdeithas y Chwiorydd. Cynhaliwyd y cyrddau blynyddol ar Hydref 19 a 20. Pregethwyd yn yr oedfaon gan y Parchedig Lewis Williams, a dechreuwyd dwy ohonynt gan y Parchedig Dl. John, Gosen. Daeth cynulliadau da ynghyd, ac yn ôl ei arfer cafwyd pregethau grymus gan Mr. Williams. Daeth y casgliadau hefyd yn fwy na'r disgwyl.

CAPEL Y FADFA.—Ar Sul, Hydref 19, cynhaliwyd gwasanaeth blynyddol yr adran hon o Gynghrair y Gwragedd, y pregethwr eleni oedd Llywydd y Cynghrair yn y sir am y flwyddyn sydd newydd orffen, Miss S. A. Jones, Well Street, Llandysul. Gan mai yma y magwyd ei mam, a bu perthynasau ei mam yn gysylltiedig a'r achos am flynyddoedd lawer, cafodd groeso cynnes iawn. Aeth hithau drwy ei gwaith mewn dull clir ac hamddenol, a'r farn oedd fod y gwasanaeth ar ei hyd yn rhagorol iawn. Wrth yr organ yr oedd Miss Annie Jones, Llynyfran, a phawb yn falch ei gweld hithau.

CYRDDAU DIOLCHGARWCH—Yn RHYDYGWIN pregethwyd yn rymus ac effeithiol iawn gan y Parchedig T. Oswald Williams, M.A. Yng NGHILIAU AERON pregethwyd i gynulliad lluosog gan y gweinidog, y Parchedig Lewis Williams. Yng NGHAPEL Y FADFA ar Hydref 9 ac yn LLWYNRHYDOWEN ar Hydref 10 cafwyd cynulliadau da, ac yr oedd y pregethwr, y Parchedig Lewis Williams, yn ei afiaeth yn traddodi'i genadwri. Yn ABERYSTWYTH ar Hydref 5 pregethwyd gan y Parchedig Noel James, B.A. o Bont ar Dawe. Daeth yr aelodau yn weddol gryno i'w glywed yn traddodi pregethau grymus ac amserol. Addurnwyd y capel yn dlws iawn gan foneddigesau'r eglwys, a diolchir yn gynnes iddynt am hynny. Yng

NGELLIONNEN a'r GRAIG, TREBANOS pregethwyd ar Hydref 26 gan gweinidog y Parchedig J. D. Jones, ac yn yr oedfaon canwyd unawdau gan Mrs. G. Bowen James. Gwasanaethwyd yng NGALLTYPLACA gan y Parchedig D. Morris Jones, Drefach; yng NGHAPEL Y BRYN gan y Parchedig T. O. Williams, ac yng NGHAPEL Y CWM gan y Parchedig Lewis Williams.

Y RADIO.—O ddiddordeb i Undodiaid bydd y darlledu ar ddydd Mawrth, Tachwedd 18, am 10.15 p.m. o ddadl ar "Gwyrthiau" rhwng Dr. John Baker, y gwyddonydd enwog o Rydychen, a Dr. Sherwood Taylor, hanesydd gwyddoniaeth. Bydd Dr. Baker yn siarad drosto'i hun fel Undodwr, tra cymerir safbwynt Pabyddiaeth gan Dr. Taylor. Un o'r gyfres—Belief and Unbelief—yw'r ddadl hon.

AR Hydref 27 yn y Newyddion Cymraeg cyfeiriwyd at ganmlwydd YR YMOFYNNYDD, a darlledwyd sgwrs ar y cylchgrawn gan y golygydd. Rhy brin oedd yr amser, ond dywedwyd i'r siaradwr wthio llawer iawn i mewn i le cyfyng. Daeth geiriau o gymeradwyaeth o amryw fannau yng Nghymru a Lloegr. O'u plith detholir y rhain o eiddo gweinidog parchus yn ei enwad yn Llundain. Nid i'r Undodiaid y perthyn. "Llawenydd mawr i mi oedd ichi ddodi Rhyddid a Gwirionedd ar yr ysgrîn modd y gwelodd Uniongrededd Cymru yr Unionwiredd sydd gan y 'Sosiniaid'."

YSGOL UN DYDD.—Trefnodd Cymdeithas Morgannwg gydag adran Gwasanaeth Cymdeithasol y General Assembly gynnal Ysgol Un Dydd yn Eglwys West Grove, Caerdydd, ar Dachwedd 29 am dri o'r gloch. Yr athro fydd y Parchedig R. W. Sorensen, yr aelod seneddol dros Walthamstow, a thestun yr ysgol fydd "Social Morality." I gwrdd â chost y fenter gofynnir am swllt oddiwrth bob aelod sy'n bwriadu bod yno. Danfoner yr enw a'r tâl i'r Parchedig Alan R. Taylor, Woodlands, Lan Park Road, Pontypridd, erbyn Tachwedd 22.

MALURION.

(*Soned ail-orau Eisteddfod Genedlaethol Bae Colwyn*).

DAETH ataf heddiw eto, daw o hyd
A'i degan bach yn yfflon yn ei law;
Sgriws ac olwynion dros y lle i gyd
A dagrau yn ei lygaid fel y glaw.
Minnau geisiaf drwsio'r darnau briw
A chreu o'r newydd drwy dincera taer,
Asio a chlytio bob un ddarn a sgriw—
Heddiw'n fecanic ac yfory'n saer.
'Rwy'n amyneddgar iawn, oherwydd gwn
Bydd raid i minnau pan ddaw'r olaf bang
Ymddiried byd a bywyd iddo'n grwn
Mewn gobaith gweld cywirio'r sang-di-fang.
Maddeued yntau ddagrau tad yn dirion
Wrth glytio'r hyn a gafodd yn falurion.

D. JACOB DAFIS.

J. D. Lewis a'i Feibion, Cyf., Argraffwyr, Llandysul